**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Prif Weinidog
Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Llywodraeth Cymru

23 Rhagfyr 2024

## Y Strategaeth Ryngwladol a Maes Awyr Caerdydd

Annwyl Eluned a Rebecca,

Diolch am eich llythyr ar 2 Hydref 2024 ynghylch cyllid buddsoddi cymhorthdal hirdymor arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei ddweud yn gyhoeddus am becyn buddsoddi arfaethedig Llywodraeth Cymru tra bod proses atgyfeirio'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn mynd rhagddi, ac mae'n parchu y bydd peth o'r manylion sy'n sail i'r strategaeth newydd ar gyfer Maes Awyr Caerdydd yn fasnachol sensitif eu natur.

Serch hynny, rydym yn siomedig â'r ymateb rydym wedi'i gael, gan ei fod yn methu â mynd i'r afael â nifer o gwestiynau yn ymwneud â goblygiadau cyllidebol y penderfyniad hwn a godwyd yn ein llythyr dyddiedig 20 Awst 2024. A fyddech cystal ag egluro:

- Sut y bydd y buddsoddiad yn ymwneud â'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol?
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym dro ar ôl tro ei bod yn wynebu sefyllfa ariannol heriol ac na all gynllunio y tu hwnt i gylchoedd blynyddol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd eraill yng nghylch gwaith ein Pwyllgor fel y sector diwylliant. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr arian hwn ar gael?

- Ar ba sail y cafodd buddsoddiad y maes awyr ei flaenoriaethu dros bwysau ariannol eraill fel yr argyfwng ariannol yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn 24 Ionawr 2025.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.